

Trosolwg

Mae'r uned hon yn trafod rheoli gwrthdaro, h.y. adnabod a delio gydag amrywiaeth o fathau o ymddygiad a gweithredu. Mae'r elfen gyntaf yn ymwneud ag ymateb mewn ffyrdd nad ydynt yn arwain at wrthdaro, a cheisio tawelu sefyllfaoedd lle gwelir ymddygiad o'r fath. Mae'r ail elfen yn ymwneud â defnydd priodol o sgiliau a chyfarpar diogelwch personol. Ymhlith y sgiliau diogelwch personol mae hunan-amddiffyniad ac ataliaeth.

Datblygwyd yr uned hon yn bennaf i'w defnyddio yn y sector plismona a gorfodi'r gyfraith.

Mae'r uned hon yn berthnasol i bersonél hyfforddedig y mae eu rôl a/neu eu dynodiad yn cynnwys rheoli gwrthdaro a/neu ddefnyddio sgiliau a chyfarpar diogelwch personol.

Mae dwy elfen

- 1 Cymhwyso sgiliau a thechnegau rheoli gwrthdaro
- 2 Defnyddio sgiliau a chyfarpar diogelwch personol

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Cymhwyso sgiliau a thechnegau rheoli gwrthdaro

1. casglu gwybodaeth er mwyn asesu'r bygythiad
2. dewis opsiwn tactegol ar sail eich asesiad o'r bygythiad, deddfwriaeth, hyfforddiant a pholisi sefydliadol
3. galw am unrhyw gymorth angenrheidiol, pobl ychwanegol a chefnogaeth os bydd angen
4. **cyfathrebu â phobl** mewn modd sy'n
 - 4.1 dangos parch atynt hwy, eu heiddo a'u hawliau
 - 4.2 briodol ar eu cyfer
 - 4.3 rhydd rhag camwahaniaethu ac ymddygiad gormesol
5. lle bo modd, esbonio'n eglur beth yw eich rôl a beth ddisgwylir ganddyn nhw
6. sicrhau nad yw eich camau gweithredu a'ch geiriau eich hun yn ymosodol ar yr adegau priodol
7. cadw'n effro i sylwi ar gyfathrebu llafar a di-eiriau sy'n gysylltiedig ag arwyddion perygl
8. cymryd camau i dawelu gwrthdaro
 - 8.1 na fyddant yn gwneud y sefyllfa'n waeth ac sy'n hybu naws ddigyffro a sicrwydd
 - 8.2 sy'n cyd-fynd â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad, a'ch cyfrifoldebau cyfreithiol a'ch hyfforddiant

Defnyddio sgiliau a chyfarpar diogelwch personol

9. defnyddio **sgiliau diogelwch personol** priodol yn y digwyddiad
10. cario a defnyddio cyfarpar cymeradwyo, yn unol â gweithdrefnau gweithredu sefydliadol a hyfforddiant
11. cyfleu gwybodaeth gywir a chllir i'ch cydweithwyr a staff arbenigol eraill yn ystod y digwyddiad
12. cyfathrebu'n glir â'r unigolyn/unigolion ar hyd y digwyddiad
13. sicrhau bod grym a ddefnyddir yn ystod y digwyddiad yn rhesymol, yn gymesur ac yn angenrheidiol
14. arddangos dyletswydd gofal ac ôl-ofal
15. adrodd am y digwyddiad yn brydlon ac yn gywir, a chyfiawnhau'r camau a gymerwyd neu ddarparu tystiolaeth yn eu cylch
16. hysbysu goruchwylwr yn brydlon ynghylch y camau gweithredu a gymerwyd gennych yn ystod y digwyddiad

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall: **Rheoli gwrthdaro**

1. pwysigrwydd dangos parch at bobl, eu heiddo a'u hawliau, a sut mae gwneud hynny
2. ymddygiad neu ieithwedd a allai ddangos i bobl eraill eich bod yn camwahaniaethu neu'n gormesu
3. defnyddio camau gweithredu, ystumiau a iaith y corff i reoli gwrthdaro
4. sut mae casglu'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i reoli gwrthdaro
5. sut mae asesu arwyddion, ymddygiad a chamau gweithredu, gan nodi'r rhai a all arwain at wrthdaro
6. y mathau o ymddygiad adeiladol y gallwch eu defnyddio i dawelu sefyllfaoedd
7. eich cyfrifoldebau cyfreithiol o ran delio gydag ymddygiad a allai arwain at wrthdaro
8. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol yng nghyswllt sgiliau a chyfarpar diogelwch personol
9. pwysigrwydd cadw at ganllawiau cenedlaethol sy'n ymwneud â gweithio'n briodol gyda phlant a phobl ifanc
10. sut mae cynnal asesiadau deinamig o fygythiadau
11. sut mae gwahaniaethu rhwng risg 'uchel' a risg 'anhysbys' i chi eich hun ac eraill
12. eich cyfrifoldebau personol eich hun yng nghyswllt 'defnyddio grym'
13. y cymorth a'r gefnogaeth a all fod yn ofynnol ar gyfer gwahanol ddigwyddiadau
14. yr opsiynau tactegol sydd ar gael i chi, gan gynnwys ymneilltuo'n dactegol
15. defnyddio sgiliau cyfathrebu i reoli gwrthdaro
16. sut mae defnyddio cyfarpar amddiffynnol personol a chyfarpar cyfathrebu i reoli gwrthdaro
17. pwysigrwydd sicrhau bod grym a ddefnyddir yn rhesymol, yn angenrheidiol ac yn gymesur
18. yr angen am ystyried sut gallai eraill ymateb, sydd o bosib yn gweld y digwyddiad
19. ystyr dyletswydd gofal yng nghyd-destun rheoli gwrthdaro
20. y goblygiadau meddygol yng nghyswllt defnyddio sgiliau a chyfarpar diogelwch personol
21. yr angen am gyfiawnhau a rhoi cyfrif am eich camau gweithredu
22. y gweithdrefnau ar gyfer cofnodi ac adrodd am ddigwyddiadau sy'n galw am sgiliau a chyfarpar diogelwch personol

**Cwmpas/Ystod
cysylltiedig â meini
prawf perfformiad**

Cymhwyso sgiliau a thechnegau rheoli gwrthdaro

1 ffyrdd o gyfathrebu

- 1.1 iaith a lleferydd
- 1.2 gweithredoedd, ystumiau a iaith y corff
- 1.3 gofod a safle

2 pobl

- 2.1 cydymffurfio
- 2.2 heb gydymffurfio

Defnyddio sgiliau a chyfarpar diogelwch personol

3 sgiliau diogelwch personol

- 3.1 hunan-amddiffyn
- 3.2 ataliaeth

4 cyfarpar

- 4.1 cyfarpar amddiffynnol personol
- 4.2 cyfarpar cyfathrebu

Rheoli gwrthdaro

Datblygwyd gan	Skills for Justice
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Chwefror 2010
Indicative Review Date	Chwefror 2013
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Sgiliau er Cyfiawnder
RCU gwreiddiol	SFJ2C4
Galwedigaethau perthnasol	Gwasanaeth Cyhoeddus a Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig eraill; Gwasanaethau Cyhoeddus
Cyfres/Set	Plismona a Gorfodi'r Gyfraith
Geiriau Allweddol	Ymddygiad, camau gweithredu, gwrthdaro, tawelu